| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **15 MEDI 2014** |
| **TEITL:** | **DIWEDDARU GEIRIAD POLISI TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CEFNDIR

Fe fabwysiadwyd y polisi cyfredol trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat ar y 22/10/2010; ac fe ddaeth i rym ar y 1af o Ragfyr 2010.

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi bod yn ymchwilio i ddiwygio'r gyfraith mewn perthynas â thrwyddedu tacsis ers 2012 ac mae Cyngor Gwynedd fel pob Awdurdod Trwyddedu arall wedi disgwyl am ganlyniad ymchwil adroddiad y Comisiwn yng nghyd-destun diwygio polisïau tacsis. Fe gyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad ym mis Mai'r flwyddyn hon ynghyd a Mesur Drafft Cerbydau Tacsi a Hurio Preifat.

Yn y cyfamser, mae Bil Dadreoleiddio llywodraeth San Steffan yn cyflwyno rhai mesurau arfaethedig mewn perthynas â thrwyddedu tacsis. Cyflwynir newidiadau arfaethedig mewn perthynas â materion megis hyd trwydded gyrwyr a Gweithredwyr Cwmnïau Tacsis yn ogystal â chyflwyno proses o ganiatáu cytundebau is - gontractio gyrru cerbydau gan Weithredwyr.

Unwaith fydd y sefyllfa yn glir o safbwynt adnabod pa rai o'r mesurau arfaethedig sydd yn debygol o ymddangos yn derfynol ar y llyfr statud mewn perthynas â chyfraith trwyddedu tacsis; fe fydd Cyngor Gwynedd fel pob Awdurdod Lleol arall yn mynd ati i ymgynghori ar adolygu'r polisi yn llawn.

Yn y cyfamser; mae angen gwneud man newidiadau i eiriad y polisi er mwyn ei ddiweddaru i gyd fynd a threfniadau gweinyddu prosesau trwyddedu tacsis cyfredol.

## MANYLION Y NEWIDIADAU

Mae'r newidiadau yn cynnwys –

- Dileu manylion pwyntiau cyswllt swyddogion yr Uned Drwyddedu nad ydynt yn gyfredol bellach
- Newid pob cyfeiriad at 'drwyddedai cerbyd' i 'berchennog cerbyd'

Yn ogystal â hyn mae cymal (d) o amod 9 yn cael ei ddileu yn ei gyfanrwydd gan fod yn cyfeirio at broses o drosglwyddo trwydded o un cerbyd i gerbyd arall. Fe dderbyniwyd cyngor cyfreithiol yn ddiweddar i beidio caniatáu trosglwyddo trwydded o un cerbyd i gerbyd arall gan nad oes darpariaeth yn y ddeddfwriaeth berthnasol i ganiatáu proses o'r fath.

Gweler yr atodiad am gopi o'r polisi diwygiedig.

## ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r man newidiadau i eiriad y Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.**